# Arweinydd Tîm Datblygu Meddalwedd

Cyflog: £45,264 - £49,143 y flwyddyn (Gradd 10)
Math o Gontract: Llawn amser (36.5 awr yr wythnos), Parhaol

Mae CBAC, sy'n adnabyddus yn y byd addysg yng Nghymru, yn un o brif ddarparwyr cymwysterau y gellir ymddiried ynddynt ar draws y DU. Mae'n gyfnod cyffrous i ymuno â'n sefydliad, gyda phortffolio eang o brojectau trawsnewid yn cael eu cynnal sy'n ymwneud ag arloesi digidol a chreadigrwydd.

Mae hon yn rôl newydd, sy'n gyfrifol am arwain tîm o weithwyr datblygu proffesiynol a fydd, gyda'i gilydd, yn dylunio, gweithredu a chynnal datrysiadau data a ddefnyddir gan amrywiaeth o randdeiliaid. Byddant yn goruchwylio'r prosesau datblygu o'r dylunio cychwynnol i'r integreiddio i fod yn drefn arferol a'u gwelliant parhaus o hynny ymlaen.

Rydym yn awyddus i dderbyn ceisiadau gan unigolion sydd â phrofiad blaenorol o reoli/arwain ac sydd â thystiolaeth o gymryd rhan mewn amrywiaeth o brojectau datblygu meddalwedd. Bydd ymgeiswyr yn hynod drefnus a bydd ganddynt sgiliau rhyngbersonol ardderchog: gan roi'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i gyflawni canlyniadau llwyddiannus mewn amrywiaeth o brojectau aml-adrannol sy'n cyd-fynd ag amcanion y busnes ac yn rhagori ar ddisgwyliadau defnyddwyr.

**Y Contract:**
Swydd hybrid yw'r rôl hon, sy'n galluogi'r ymgeisydd llwyddiannus i rannu ei amser rhwng gweithio yn swyddfeydd CBAC a gweithio gartref, gan ddibynnu ar ddewis personol ac anghenion y busnes. Dylai deiliaid y rôl fod yn barod i weithio o'n swyddfa yng Nghaerdydd o leiaf un diwrnod yr wythnos. Byddai sgiliau iaith Gymraeg yn fanteisiol, ond nid ydynt yn hanfodol ar gyfer y rôl hon.

Yn CBAC, rydym yn falch o fod yn lle cynhwysol a chefnogol i weithio. Rydym yn cynnig amrywiaeth o fuddion ardderchog, gan gynnwys: 25 diwrnod o wyliau blynyddol y flwyddyn (yn ogystal ag 16 o wyliau statudol / ychwanegol), gwersi Cymraeg am ddim, cynllun pensiwn buddion diffiniedig CARE (CPLlL) a nifer o bolisïau sy'n ystyriol o deuluoedd.

Os hoffech wybod mwy am y swydd neu am weithio i CBAC, cysylltwch â Fliss (hi) drwy (AD@cbac.co.uk), bydd hi'n fwy na pharod i siarad â chi.

**Ewch i'n gwefan** i lawrlwytho copi o'r disgrifiad swydd a ffurflen gais.

## Dyddiad cau: *Dydd Mercher 30 Ebrill* 2025.

## DISGRIFIAD SWYDD

| | |
|---|---|
| **Teitl y swydd:** | Arweinydd Tîm Datblygu Meddalwedd |
| **Adran:** | Technoleg Gwybodaeth |
| **Isadran:** | Gwasanaeth Datrysiadau |
| **Yn atebol i:** | Arweinydd ar faterion Technegol a Saernïol Systemau Data |
| **Gradd:** | 10 |
| **Lleoliad:** | Rhodfa'r Gorllewin |

**Prif bwrpas y Swydd:**

Bydd Arweinydd y Tîm Datblygu Meddalwedd (Data) yn helpu i arwain tîm o weithwyr datblygu proffesiynol sy'n gyfrifol am *ddylunio, gweithredu a chynnal datrysiadau data* ar gyfer nifer o gynhyrchion a gwasanaethau a ddefnyddir gan randdeiliaid mewnol ac allanol. Bydd Arweinydd y Tîm Datblygu Meddalwedd (Data), ar y cyd â'r Arweinydd Systemau Data, yn goruchwylio'r broses ddatblygu gyfan, o ddylunio a gweithredu hyd at integreiddio a gwelliant parhaus.

Bydd deiliad y swydd yn cydweithio â rhanddeiliaid eraill gan gynnwys rheolwyr cynhyrchion, datblygwyr, ymchwil, deallusrwydd busnes a marchnata, i sicrhau bod y tîm data yn darparu datrysiadau arloesol o ansawdd uchel sy'n cyflawni nodau'r busnes a disgwyliadau defnyddwyr.

Fel rhan o'r Grŵp Datblygu TG, bydd deiliad y swydd yn gweithio ar y cyd â chydweithwyr yn y Gwasanaeth Datrysiadau, y tîm TG ehangach ac ar draws y corff, i sicrhau bod projectau a chytundebau ar lefel gwasanaeth yn cael eu darparu'n llwyddiannus. Elfen allweddol o'r rôl fydd darparu diweddariadau rheolaidd ar gynnydd project i arweinydd y project, gan sicrhau bod nodau'r project yn cael eu cyflawni o fewn yr amserlenni priodol a bod llwyth gwaith yn cael ei flaenoriaethu'n effeithiol o fewn y tîm.

**Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau:**

**Dylunio a Darparu Datrysiadau**

- Arwain y tîm Data a goruchwylio'r gwaith o ddylunio a chreu datrysiadau sy'n ymwneud â data.
- Cydweithio â phenseiri, datblygwyr, rheolwyr cynhyrchion a rhanddeiliaid i ddeall anghenion y defnyddiwr a nodau'r busnes.
- Cyfrannu at saernïaeth darged CBAC-Un (WJEC-One); sicrhau cysondeb ar draws gwasanaethau a dilyn dull sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr.
- Sefydlu a chynnal a chadw safonau, canllawiau, ac arferion gorau Data ar draws y sefydliad.
- Gwerthuso ac iteru’r gwaith o ddylunio datrysiadau data yn seiliedig ar fetrigau ac adborth gan ddefnyddwyr.

**Rheoli**

- Mentora a hyfforddi aelodau'r tîm a rhoi adborth ac arweiniad gydag agwedd broffesiynol yn ogystal â bugeiliol, gan nodi unrhyw anghenion hyfforddi neu ddatblygu a darparu cymorth priodol.

- Goruchwylio llwyth gwaith y tîm, gan ddirprwyo a chynllunio dyraniadau gwaith. monitro cynnydd mewn perthynas â chytundebau lefel gwasanaeth a phrojectau drwy gydol y flwyddyn.
- Cynnal adolygiadau perfformiad rheolaidd a rheoli'r holl faterion sy'n ymwneud â phobl ar gyfer eich tîm, gan gefnogi gyda thanberfformio neu faterion gallu, fel y bo'n briodol.

**Rheoli Projectau**

- Gan gydweithio â chydweithwyr yn y Gwasanaeth Datrysiadau a'r tîm TG ehangach, SRhP a rhanddeiliaid busnes (gan ddibynnu ar y project), casglu a diffinio gofynion defnyddwyr ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau mewnol ac allanol.
- Yn rhan o'r Grŵp Datblygu TG, gweithio i gwrdd â therfynau amser projectau a sicrhau bod cytundebau ar lefel gwasanaeth yn cael eu darparu'n llwyddiannus, gan flaenoriaethu llwythi gwaith yn briodol yn unol â gofynion y busnes.
- Adrodd yn ôl yn rheolaidd am gynnydd unrhyw broject i arweinydd y project, gan sicrhau bod nodau'r project wedi'u cyflawni o fewn yr amserlenni priodol.

**Ymgysylltu â Rhanddeiliaid**

- Trosglwyddo'r weledigaeth, strategaeth, a'r safonau data i'r tîm cynhyrchion a'r rhanddeiliaid.
- Cysylltu â chydweithwyr mewnol ym mhob rhan o'r busnes er mwyn gallu dysgu, cydweithio a gwella, gan gynnig cefnogaeth a datrysiadau yn ôl yr angen.
- Sefydlu sianeli cyfathrebu effeithiol â defnyddwyr drwy gydol y broses ddatblygu, gan gyfleu cysyniadau technegol cymhleth yn glir a chryno.
- Gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid yr adrannau Deallusrwydd Busnes, Ymchwil a Marchnata i sicrhau defnydd cyson o ddata gwaelodol y busnes.

**Arall**

- Deall a chydymffurfio â holl bolisïau a gweithdrefnau CBAC a nodir yn y Llawlyfr Staff; yn benodol, sicrhau eich bod yn deall eich rôl a'ch cyfrifoldebau mewn perthynas â Diogelu, Diogelwch Gwybodaeth, GDPR, Cyfrinachedd, yr iaith Gymraeg ac Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd.
- Cymryd rhan weithredol yn y gwaith o gefnogi egwyddorion ac arfer cydraddoldeb cyfle fel y'i nodir ym Mholisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth CBAC, gan ymgorffori Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ym mhob project, polisi ac arfer.
- Bod yn aelod rhagweithiol o'r tîm, gan gyfrannu'n gadarnhaol at gyfarfodydd a phrojectau i gefnogi nodau ac amcanion CBAC.
- Dilyn prosesau parhau i wella a mireinio i gaffael sgiliau a dulliau ychwanegol, gan ymgymryd â chymwysterau perthnasol i'r diwydiant (lle bo'n gymwys), fel Ardystiad AWS, gan sicrhau bod parhau i ddatblygu'n bersonol yn rhan flaenllaw o'r rôl.
- Bod yn ymwybodol o'r safonau diwydiant diweddaraf i sicrhau bod CBAC yn parhau i fod yn flaenllaw o ran addysg ddigidol.
- Ymgymryd â dyletswyddau eraill yn ôl y galw sy'n gymesur â gradd y swydd

## Manyleb y Person

| | |
|---|---|
| **Teitl y swydd:** | Arweinydd Tîm Datblygu Meddalwedd |
| **Adran:** | Technoleg Gwybodaeth |

Meini prawf hynod ddymunol yw'r sgiliau a'r profiad gorau posibl a fydd gan yr ymgeisydd yn ddelfrydol, ond nid oes disgwyl i ymgeiswyr fodloni pob un o'r rhain. Meini prawf dymunol yw'r rhai a fyddai'n ychwanegu gwerth at y swydd os ydynt ar gael, gan gynnwys hefyd potensial am dwf a datblygiad yn y rôl.

## Sgiliau a Galluoedd

**Hynod Ddymunol**

- Y gallu i drosi gofynion defnyddwyr yn fanylebau dylunio yn barod i ddatblygwyr eu gweithredu, gyda dogfennaeth ategol yn ôl yr angen.
- Sgiliau dadansoddol cryf gyda'r gallu i gasglu, trefnu, dadansoddi a lledaenu gwybodaeth sylweddol gan roi sylw i fanylion a chywirdeb.
- Sgiliau trefnu rhagorol sy'n dangos y gallu i gynhyrchu gwaith i safonau uchel.
- Sgiliau datrys problemau a dadansoddi gwych.
- Canolbwyntio ar ganlyniadau, gyda'r gallu i roi argymhellion a datrysiadau yn ôl yr angen
- Y gallu i ddysgu'n gyflym ac awydd i wella eich hun yn barhaus.
- Sgiliau rhyngbersonol, cyfathrebu a chyflwyno gwych sy'n dangos y gallu i gyfleu negeseuon cymhleth yn glir.
- Yn gallu ymgysylltu a chyfathrebu'n rhagweithiol â rhanddeiliaid allweddol, gan ddangos sgiliau dylanwadu effeithiol.

**Dymunol**

- Y gallu i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg

## Gwybodaeth

**Hynod Ddymunol**

- Gwybodaeth dda am y prif offer, tueddiadau, a fframweithiau a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer datrysiadau data gan gynnwys saernïaeth Data Warehouse a Data Lake, RDBMS, NoSQ a modelu data
- Gwybodaeth gyfredol am dechnegau datblygu gan ddefnyddio SQL, Python, R, JavaScript;

**Dymunol**

- Gwybodaeth am offer allweddol (AWS Athena & Glue;  Oracle; Postgres; NO-SQL db; Graph-DB ac ati.)
- Gwybodaeth am offer ddadansoddi a chyflwyno data (Tableau, PowerBI, AWS QuickSight etc.)

## Profiad

**Hynod Ddymunol**

- Profiad o fodelu data ar gyfer datblygu ac optimeiddio rhaglenni.
- Profiad o arwain y gwaith o gasglu gofynion ac ymgysylltu â rhanddeiliaid a defnyddwyr.
- Profiad o gydweithio â thimau delweddu data i roi adborth yn hyderus ar ffynonellau data a dulliau cipio data sydd ar gael i gefnogi'r dyluniad swyddogaethol a'r defnyddioldeb.
- Profiad o weithio gydag arbenigwyr technegol, yn cyd-greu'r hyn sydd i'w gyflawni sy'n arddangos arfer gorau a hefyd yn ddichonadwy i'w lunio.

**Dymunol**

- Profiad yn gweithio yn y diwydiant technoleg addysg.

| **Hyfforddiant / Cymwysterau** | |
|---|---|

**Dymunol**

- Gradd neu gymhwyster cyfatebol mewn pwnc Datblygu Meddalwedd neu Dadansoddi Data/Peirianneg neu brofiad o weithio gyda systemau Data mewn amgylchedd proffesiynol.

| Telerau ac Amodau Gwasanaeth | | Terms and Conditions of Service | |
|---|---|---|---|
| **Teitl y Swydd/ Job Title:** | Arweinydd Tîm Datblygu Meddalwedd/ Software Development Team Leader | | |
| **Cyflog/ Salary:** | £45,264 - £49,143 y flwyddyn / per annum | **Gradd/ Gradd:** | 10 |
| **Gwyliau Blynyddol/ Annual Leave:** | 25 Diwrnod y flwyddyn. Mae CBAC yn caniatáu 16 o ddyddiau statudol / ychwanegol o wyliau yn ogystal ar hyn o bryd Pro rata.<br><br>25 Days per annum. In addition, the WJEC currently allows 16 statutory / additional holidays. Pro rata. | | |
| **Pensiwn/ Pension:** | Gweithredir darpariaeth y Ddeddf Bensiwn Llywodraeth Leol.<br><br>The provision of the Local Government Superannuation Act apply. | | |

| **Math o Gytundeb:** | **Contract Type:** |
|---|---|
| ☒ Llawn amser / Full Time | |
| ☐ Rhan amser / Part Time | **Nifer yr oriau yr wythnos No. of hrs per week** |
| ☐ Llawn amser Tymor Cyfyngedig / Full Time Limited Term | **Diwedd y Tymor End of Term** |
| ☐ Rhan amser Tymor Cyfyngedig / Part Time Limited Term | **Diwedd y Tymor End of Term**<br>**Nifer yr oriau yr wythnos No. of hrs per week** |

| **Dull Ymgeisio:** | **Method of Application:** |
|---|---|

Dylid anfon ffurflenni wedi'u llenwi ar e-bost at ad@cbac.co.uk erbyn **23:59; Dydd Mercher 30 Ebrill 2025.**

Completed forms should be sent by email to hr@wjec.co.uk by **23:59; Wednesday 30 April 2025**.